

# Yn sâl mewn ffordd newydd

*“Pwy a all ddweud, ‘Yr wyf wedi puro fy meddwl; yr wyf yn lân o’r pechod’?”  
(adn. 9)*

## Beth am ddarllen Diarhebion 20:1–12 ac yna myfyrio

Yn ôl un awdur, mae pob cenhedlaeth yn sâl mewn ffordd newydd. Yn ein cenhedlaeth bresennol, yr ydym yn sâl – hynny yw, mae’r cyflwr pechadurus sydd yn amlwg yn ein cenhedlaeth yn wahanol i’r hyn a welwyd yn nyddiau ein tadau er bod yna rai pethau cyffelyb. Cyn dyddiau Charles Darwin, er enghraifft, nid oedd ein teidiau yn poeni am wastatáu mawredd y Duwdod o fewn i’r Creu, doedd dim angen iddynt boeni am theori esblygiad nac ymdrechion i geisio uniaethu iachawdwriaeth hefo hunanhyder. Yn yr hen ddyddiau, roedd balchder yn un o’r pechodau gwaethaf; bellach mae’n cael ei ganmol. Mae’r pechodau y mae Paul yn eu rhestru yn Galatiaid 5:19–21 bellach yn rhai sydd yn cael eu gosod o’r neilltu fel rhai amherthnasol, ac mae’r bobl sy’n euog o’r troseddau hynny yn cael eu goddef.

Mae yna un gwahaniaeth arall rhwng y genhedlaeth a fu a’r genhedlaeth bresennol. Yn y gorrffennol, roedd pobl yn tueddu i guddio eu pechod; bellach maent yn ei hysbysebu. Mae pynciau oedd yn arfer cael eu hystyried fel rhai amhriodol mewn sgwrs ddiwylliedig bellach yn cael eu trafod yn agored. Mae bywgraffiad cyffredin heddiw yn aros yn hir hefo pechodau cudd y gwrthrych. Y pethau hynny, yr oedd eraill yn tybio eu bod yn iawn i dynnu llen drostynt, mae’r bywgraffydd cyfoes yn eu datguddio gyda brwdfrydedd. Y peth lleiaf, yn ôl gwŷr a gwragedd ein cenhedlaeth bresennol, yw ein bod yn onest, fel petai gonestrwydd yn esgusodi pechod.

Does dim amheuaeth fod ein hoes bresennol yn ddiffygiol gyda golwg ar ymwybyddiaeth o bechod. Mae’n ein hannog i gymryd y natur ddynol fel ag y mae. Fe all fod ein hoes bresennol yn sâl mewn ffordd newydd, ond mae’r ffeithiau yn sicr yn dangos ein bod ni’n sâl. Mae’r angen am Waredwr yn parhau.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam. 13:1–14; 1 Bren. 21:1–10

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Amon ac Ahab yn sâl?
2. Sut y bu iddynt geisio teimlo’n well?

## Gweddi

O Dad, pwy sy’n medru’n deffro i’n cyflwr ysbrydol a’n hangen am Waredwr? Dim ond dy Ysbryd Glân di sydd yn abl i wneud hyn. Anfon dy Ysbryd Glân mewn mesur helaeth i’th Eglwys ac i mewn i’th fyd. Amen.